

Polisi chwythu'r chwiban ar gyfer y staff

Mae Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon wedi ymrwymo i wneud ei waith yn onest ac yn ddidwyll, ac rydym yn disgwyl i bob aelod o'r staff fod â safonau uchel. Os bydd gan weithiwr wybodaeth am ymddygiad anonest o unrhyw fath, bydd y Cyngor yn ei annog ac yn ei gefnogi i godi'r mater.

Nodau'r polisi hwn yw:

- Annog staff i roi gwybod am achosion lle mae amheuaeth o ymddygiad anonest cyn gynted ag y bo modd, gan wybod y bydd eu pryder yn cael ei gymryd o ddifri, ac yn cael ei ymchwilio fel y bo'n briodol, ac na fydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.
- Rhoi arweiniad i'r staff ynglŷn â sut i godi'r materion hynny.
- Sicrhau staff y dylent allu mynegi pryder gwirioneddol yn ddidwyll heb ofni y bydd rhywun yn ceisio dial arnynt, hyd yn oed os canfyddir nad oes sail i'w hamheuan.

Os oes gennych bryder gwirioneddol ynglŷn ag amheuaeth o ymddygiad anonest neu berygl sy'n effeithio ar unrhyw rai o'n gweithgareddau (pryder chwythu'r chwiban) dylech roi gwybod amdano yn unol â'r polisi hwn. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r polisi hwn ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'ch amgylchiadau personol chi, er enghraifft y ffordd rydych wedi cael eich trin yn y gwaith. Mewn achosion o'r fath, dylech ddefnyddio'r Drefn Gwyno. Mae'r Cyngor yn gobeithio y byddwch, mewn llawer o achosion, yn gallu dwyn unrhyw fater sy'n peri pryder i sylw eich rheolwr llinell, neu os nad yw hynny'n bosibl, i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Personél. Gallwch roi gwybod iddo'n bersonol neu roi'r wybodaeth ar bapur os yw'n well gennych wneud hynny. Efallai y bydd yn gallu cytuno ar ffordd o ddatrys eich pryder yn gyflym ac yn effeithiol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn cyfeirio'r mater i sylw'r Pwyllgor Personél.

Fodd bynnag, os yw'r mater yn un mwy difrifol, neu os ydych yn teimlo nad yw eich rheolwr llinell neu Gadeirydd y Pwyllgor Personél wedi rhoi sylw i'ch pryder, neu y byddai'n well gennych beidio â mynd atynt hwy am ryw reswm, dylech gysylltu â'r Maer a fydd yn trefnu i'ch cyfarfod cyn gynted ag y bo modd i drafod eich pryder. Gallwch ddod â chydweithiwr/ffrind gyda chi i unrhyw gyfarfod yn unol â'r polisi hwn. Rhaid i bwy bynnag sy'n dod gyda chi barchu natur gyfrinachol yr wybodaeth rydych yn ei datgelu ac unrhyw ymchwiliad dilynol.

Er nad yw'r Cyngor yn disgwyl i weithwyr fod â phrawf diamheuol o unrhyw gamymddwyn neu ddiotalwch, bydd angen i'r gweithiwr ddangos rhesymau dilys dros ei bryder. Bydd y Cyngor yn cymryd bod pawb sy'n mynegi pryder yn gwneud hynny'n ddidwyll. Bydd rhoi gwybodaeth nad yw'n wir, a hynny'n fwriadol – boed yn faleisus neu er budd personol – yn arwain at gamau disgyblu. Yn yr un modd, mae erlid

gweithwyr neu eu hatal rhag mynegi pryder ynglŷn ag ymddygiad anonest hefyd yn drosedd a all arwain at gamau disgyblu.

Ar ôl i chi fynegi pryder, cynhelir asesiad cychwynnol er mwyn canfod cwmpas unrhyw ymchwiliadau. Bydd eich pryder yn cael ei gydnabod cyn pen pum niwrnod gwaith fel arfer. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr asesiad. Efallai y gofynnir i chi ddod i gyfarfodydd eraill i roi rhagor o wybodaeth.

Gall gweithwyr ofyn i'r Cyngor beidio â dweud pwy sydd wedi rhoi'r wybodaeth iddo. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i barchu'r cais hwn ond ni all warantu hyn bob amser.

Bwriad y polisi yw rhoi sicrwydd i weithwyr fel bod modd iddynt ddod â materion i sylw'r Cyngor. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylai fod angen i chi roi gwybod i drydydd parti. Bydd pob sgwrs yn cael ei chofnodi, yn cael ei harwyddo gan y ddwy ochr ac yn cael ei chadw mewn ffeil.

Ni ddylai staff ddioddef unrhyw driniaeth niweidiol oherwydd eu bod wedi mynegi pryder yn ddidwyll. Mae triniaeth niweidiol yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â mynegi pryder. Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef unrhyw driniaeth o'r fath, dylech hysbysu cadeirydd y Pwyllgor Personél ar unwaith. Os nad yw'r mater yn cael ei gywiro, dylech ei godi'n ffurfiol gan ddefnyddio ein Trefn Gwyno. Ni ddylai staff fygwth na dial ar rai sy'n chwythu'r chwiban mewn unrhyw ffordd. Bydd unrhyw un sy'n rhan o ymddygiad o'r fath yn wynebu camau disgyblu.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Arwyddwyd:

Swydd:

Dyddiad: